# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y canllawiau ar gig wedi'i wahanu'n fecanyddol

Mae'r ASB wedi datblygu canllawiau newydd i roi cymorth i fusnesau bwyd yn dilyn cyfres o ddyfarniadau llys ar y diffiniad o MSM. Ceir MSM trwy dynnu cig o'r esgyrn, gan leihau gwastraff bwyd, a rhaid ei gynhyrchu mewn ffordd hylan a diogel.??

Mae gan ddyfarniadau'r llys oblygiadau ar gyfer cynhyrchu MSM yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan eu bod wedi darparu eglurder ynghylch beth yw MSM, sut y dylai busnesau bwyd ddehongli'r diffiniad, a sut y dylent ei gymhwyso i'w cynhyrchion. ??

Mae dyfarniadau'r llys wedi pennu tri maen prawf ar gyfer dosbarthu MSM: y defnydd o esgyrn y mae'r cyhyrau cyfan eisoes wedi'u gwahanu oddi wrthynt (neu garcasau dofednod sydd yn dal i fod â chig arnynt); y defnydd o'r dulliau gwahanu mecanyddol i adfer y cig hwnnw; a cholli neu addasu strwythur ffeibr cyhyrau'r cig a adferwyd.??

Bydd canlyniad y dyfarniadau llys hyn yn effeithio ar rai busnesau, ac mae'r ASB yn deall y gallai fod angen amser ar fusnesau bwyd er mwyn iddynt allu addasu eu prosesau a'r ffordd y maent yn dosbarthu cynhyrchion yn unol â'r dyfarniadau.??

Mae'r ASB yn ymgynghori â defnyddwyr, y diwydiant, a rhanddeiliaid eraill ar ba mor addas yw ein canllawiau newydd, yn ogystal â gofyn am fewnbwn ar asesiad effaith gan y busnesau hynny y bydd gweithredu'r canllawiau yn effeithio arnynt. Bydd dull yr ASB o weithredu'r canllawiau yn cael ei lywio gan ganlyniad yr asesiad effaith, a gynhelir fel rhan o'r ymgynghoriad.?

> "Rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y canllawiau newydd yn dilyn dyfarniad y llys ar MSM.?Rydym yn deall y bydd y dyfarniad hwn yn effeithio ar fusnesau, felly mae'n bwysig ein bod ni'n ceisio safbwyntiau defnyddwyr a'r diwydiant ar y canllawiau er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosib.
> ??
> "Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael digon o gyfle i rannu safbwyntiau. Busnesau bwyd sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfraith bwyd, ac mae'r ASB wedi ymrwymo i ddatblygu canllawiau newydd ar MSM i helpu busnesau i ddeall canlyniadau dyfarniadau'r llys. ??
>
> "Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad, yr asesiad effaith a'r camau nesaf i sicrhau bod busnesau a defnyddwyr yn ymwybodol o'r datblygiadau."??
>
> Rebecca Sudworth, Cyfarwyddwr Polisi'r ASB:

Daw'r ymgynghoriad i ben am 5pm, ddydd Mercher 22 Mai.

Ewch ati i ddweud eich dweud nawr: [Ymgynghoriad ar y canllawiau ar gig wedi'i wahanu'n fecanyddol (MSM)].